

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ymddiriedolwr Neuadd Bentref Dyffryn Ardudwy a Thalybont

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2025

Lleoliad: Dyffryn Ardudwy a Neuadd Bentref Talybont

Amser: 19:30

1. Croeso a Chyflwyniadau

Dechreuodd y cyfarfod gyda Nia yn croesawu'r ymddiriedolwyr ac aelodau'r cyhoedd, ac yn diolch iddynt am eu presenoldeb. Yna, rhoddodd Beth drosolwg o'r cyfarfod, gan egluro y byddai Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) eleni yn gwyro o'r traddodiad oherwydd diffyg argaeledd adroddiadau allweddol, gan gynnwys cofnodion y CCB blaenorol a chyfrifon ariannol manwl, nad oeddent wedi'u darparu gan Bwyllgor gweithredol y Neuadd Bentref. A sut y gwnaeth y mater hwn, ynghyd â phryderon llywodraethu eraill, arwain at y bleidlais o ddifffyg hyder yn y Pwyllgor ar 3 Mehefin. Yn ogystal, roedd pryder bod y Neuadd wedi dioddef colled ariannol am y drydedd flwyddyn yn olynol, gyda'r diffyg cyfan bellach yn fwy na £32,000.

Aeth Beth ymlaen gyda hanes byr o Neuadd y Pentref, a drosglwyddwyd i Gyngor Plwyf Llanenddwyn ym 1931 ac a reolwyd gan y Cyngor Cymunedol tan oddeutu 2009. Tua 2007, ffurfiwyd Pwyllgor Rheoli Neuadd ar wahân i sicrhau cyllid ar gyfer adnewyddiadau, er bod y Cyngor Cymunedol yn parhau i fod yr unig ymddiriedolwr. Gweithiodd y trefniant hwn tan oddeutu 2019, ond yna dechreuodd problemau llywodraethu godi, gan gynnwys rhestrau anghywir o ymddiriedolwyr, cael gwared ar ymddiriedolwyr cyfreithlon, a chwalfa mewn cyfathrebu. A sut yn fwy diweddar, roedd Pwyllgor y Neuadd wedi gweithredu'n annibynnol, gan anwybyddu rôl ymddiriedolwr y Cyngor.

Daeth Beth i ben drwy egluro, fel yr unig ymddiriedolwr, fod gan y Cyngor Cymunedol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod y Neuadd yn cael ei rheoli'n briodol ac yn dryloyw. Oherwydd y chwalfa o ran strwythur ac atebolrwydd, mae'r Cyngor wedi diddymu'r pwyllgor rheoli presennol a bydd yn goruchwyllo'r Neuadd yn uniongyrchol wrth benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Cynghorodd, am y rhesymau hyn, na fyddai aelodau cyffredin y pwyllgor yn cael eu penodi ar hyn o bryd, a gofynnodd am amynedd y gymuned wrth i'r ymddiriedolwyr weithio i oresgyn yr heriau hyn a sicrhau dyfodol disgleiriach i Neuadd y Pentref.

2. Ymddiheuriadau

Dim

3. Presennol

Ymddiriedolwr Nia Rees, Ymddiriedolwr Nedw Griffiths, Ymddiriedolwr Beth Bailey, Ymddiriedolwr Sian Edwards, Ymddiriedolwr Deilwen Anderson, Ymddiriedolwr Jennifer Yuill,

Ymddiriedolwr John Ceri Evans, Ymddiriedolwr Edward Williams, Ymddiriedolwr Sion Ifor Williams.

A'r cyhoedd

4. Materion yn codi

Dim cofnodion ar gael o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol blaenorol

5. Etholiad

Ethol Cadeirydd

Esboniodd Nia fod Cadeirydd y Cyngor Cymunedol yn draddodiadol yn gwasanaethu fel Cadeirydd Elusen Neuadd y Pentref. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau personol y Cadeirydd, cynigiodd Nia y dylid ethol Edward yn Gadeirydd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Neuadd y Pentref. Cafodd y cynnig ei eilio gan yr holl ymddiriedolwyr.

Yna, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd newydd ei benodi, Edward.

Ethol Is-gadeirydd

Cynigiodd Edward y dylid ethol Nia yn Is-gadeirydd i gefnogi'r Cadeirydd i gyflawni ei ddyletswyddau a gweithredu yn ei absenoldeb pan fo angen. Cafodd y cynnig ei eilio gan yr holl ymddiriedolwyr.

Ysgrifennydd a Thrysorydd

Cynigiodd Edward benodi Ysgrifennydd a Thrysorydd allanol i helpu i reoli'r llwyth gwaith cynyddol a chaniatáu i ymddiriedolwyr ganolbwyntio ar faterion llywodraethu a gweithredol. Cafodd y cynnig ei eilio gan yr holl ymddiriedolwyr.

6. Pleidlais Ymwadiad

Aeth y cyfarfod ymlaen i bleidleisio ar y cais am ymwadiad i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer William, a oedd wedi cael ei anghymhwysu'n awtomatig rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr oherwydd amgylchiadau personol. Cynigiodd Edward gefnogi'r cais am ymwadiad anghymhwysu. Cafodd y cynnig ei eilio gan yr holl ymddiriedolwyr.

7. Penodi Aelodau Cyffredin i'r Pwyllgor

Esboniodd Edward y byddai pleidlais gyhoeddus fel arfer yn cael ei chynnal i benodi Aelodau Cyffredin i'r Pwyllgor ar y cam hwn. Fodd bynnag, oherwydd y problemau presennol, ni fyddai pwyllgor rheoli ar wahân yn cael ei ffurfio ar hyn o bryd. Dywedodd y byddai hyn yn cael ei ailystyried yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf. Soniodd Edward hefyd y byddai angen gwirfoddolwyr, a chroesawodd yr ymddiriedolwyr gyfranogiad y gymuned i helpu gydag adferiad y Neuadd.

8. Gohebiaeth

Dim gohebiaeth

9. Adroddiad y Trysorydd

Hysbysodd Edward y mynychwyr nad oedd adroddiad y Trysorydd ar gael, gan fod yr holl ddogfennaeth ariannol yn dal i gael ei hadolygu gan gyfrifydd. Bydd y cyfrifon yn cael eu cyhoeddi unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

10. Unrhyw Faterion Eraill

Ystyried Cymhwysedd Ymddiriedolwyr

Hysbysodd Edward y rhai a oedd yn bresennol, yn unol â chyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr i ddiogelu enw da'r elusen tra'n aros am adolygiad pellach, fod penderfyniad wedi'i wneud gan yr ymddiriedolwyr i wahardd Evan o'i ddyletswyddau ymddiriedolwr. Pwysleisiodd nad oedd y weithred hon yn farn ar ganlyniad yr adolygiad i ymddygiad Cynghorydd Owen, ond yn hytrach mesur rhagofalus, a gymerwyd gyda thegwch a pharch at bob person dan sylw.

Holiadur ar gyfer Adborth Cymunedol

Amlinellodd yr Ymddiriedolwyr gynlluniau i ymgysylltu â'r gymuned drwy holiadur gyda'r nod o wella cynigion Neuadd y Pentref. Bydd yr holiadur ar gael ar-lein ac ar bapur mewn lleoliadau allweddol tuag at ddiwedd yr haf. Dywedodd Edward fod yr ymddiriedolwyr eisiau clywed syniadau'r gymuned i helpu i lunio digwyddiadau a gweithgareddau'r Neuadd yn y dyfodol.

11. Sylwadau i Gloi

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfranogiad. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynnwys y gymuned wrth lunio dyfodol Neuadd y Pentref, gan nodi bod croeso i wirfoddolwyr, a chroeso i syniadau ar gyfer gwella. Hefyd, dywedodd bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu trwy'r wefan, y dudalen Facebook, a byrddau hysbysebion lleol maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:52.